

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Bupa Dental Care Canton /

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd
a'r Fro

Dyddiad arolygu: 02 Medi 2019

Dyddiad cyhoeddi: 3 Rhagfyr
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth nesaf?	27
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	29
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	30
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	31
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	40

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bupa Dental Care Canton yn 68a Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Caerdydd, CF11 9DN, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 02 Medi 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC, sef un a oedd yn arwain yr arolygiad ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Bupa Dental Care Canton yn ymrwymedig i sicrhau bod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y practis.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC ei fod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ardderchog neu'n dda iawn.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus, ac roedd rhywfaint o waith adnewyddu wedi'i gwblhau er mwyn diweddarau rhai o'r deintyddfeydd.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau, safonau a chanllawiau arfer gorau cyfredol. Roedd hyn yn golygu bod angen i'r practis wneud mwy i sicrhau ei fod yn darparu gofal a thriniaeth diogel ac effeithiol i gleifion sy'n diwallu eu hanghenion unigol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn gwrtais, yn dangos parch ac yn broffesiynol wrth ymdrin â chleifion
- Roedd gwybodaeth dda am iechyd y geg i blant ac oedolion ar gael ym mhob rhan o'r practis
- Mesurau rheoli heintiau da mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol
- Roedd pob darn o gyfarpar yn y practis wedi cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio
- Roedd gwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal a'u dogfennu mewn perthynas â'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio
- Roedd yr aelodau o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roeddent wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen gwneud mân ddiwygiadau i'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben
- Mae angen gorchuddio panel gwydr ar ddrws un ddeintyddfa er mwyn helpu i ddiogelu urddas a phreifatrwydd y cleifion wrth iddynt gael triniaeth
- Mae angen eglurhad gan arbenigwr diogelwch tân er mwyn sicrhau bod y safle wedi'i ddiogelu'n ddigonol rhag y risg o dân
- Mae angen i'r gweithgareddau archwilio a gynhelir gan y staff nodi'n briodol y gwelliannau sydd eu hangen i'r prosesau sydd ar waith yn y practis.

Gwelsom nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau canlynol yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017:

- Rheoliadau 13(5a) a 13(5b) o ran ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir – nid oedd gwastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol nac yn ddiogel yn unol â chanllawiau arfer gorau
- Rheoliadau 13(1a) a 13(1b) o ran ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir – nid oedd rhywfaint o'r gwaith o gynllunio a darparu triniaeth wedi cael ei rannu â'r cleifion yn unol â chanllawiau proffesiynol
- Rheoliad 20(1a) o ran cofnodion – nid oedd rhai o gofnodion y cleifion yn cynnwys cofnod cywir o hanesion meddygol, asesiadau na chynlluniau triniaeth y cleifion.

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae AGIC wedi cael sicrwydd digonol ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae BUPA Dental Care Canton yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd, tri hylenydd, chwe nyrs ddeintyddol, un cydlynnydd practis ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith yn Bupa Dental Care Canton er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y practis.

Roedd y cleifion yn cael cyfleoedd i ddweud wrth y practis am eu profiadau ac roedd tystiolaeth bod y practis yn gwranddo ar adborth gan y cleifion ac yn dysgu ohono.

Gallai'r tîm deintyddol siarad amrywiaeth o ieithoedd a oedd yn helpu i ddiwallu anghenion ieithyddol y boblogaeth cleifion amrywiol yn y practis.

Roedd gweithdrefn addas ar waith er mwyn i gleifion godi cwyn neu bryder ond rydym yn awgrymu y dylid newid y pennawd 'cod ymarfer' i derm sy'n haws ei adnabod fel proses gwyno.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur.

Roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan; dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis yn ardderchog neu'n dda iawn. Nododd un claf:

"Hapus iawn â'm deintydd arferol. Mae hi wedi cymryd gofal da iawn ohonof ers i mi ddechrau ei gweld"

Cadw'n iach

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth addas o wybodaeth ysgrifenedig am ofal ataliol a hylendid y geg da i blant ac oedolion ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion

ei darllen a'i chadw, gan gynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu. Gwnaethom sylwi hefyd fod siart wedi'i harddangos yn y coridor er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r lefelau uchel o siwgr a geir mewn gwahanol ddiodydd meddal.

Dyweddodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Gwelsom y saff yn siarad â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad mewn ffordd gyfeillgar ond parchus a phroffesiynol a dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff pan wnaethant ymweld â'r practis.

Roedd polisi cyfrinachedd ar waith a oedd yn nodi sut y byddai gwybodaeth breifat a phersonol y cleifion yn cael ei diogelu. Gwelsom fod desg y dderbynfa a'r ardal aros yn agos iawn at ei gilydd, ond cadarnhaodd y staff y byddai sgysiau preifat â chleifion yn cael eu cynnal yn un o'r deintyddfeydd pe bai angen. Dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd fod cynlluniau ar waith i ailddatblygu ardal y dderbynfa er mwyn defnyddio'r ardal yn well a helpu i wella cyfrinachedd y cleifion.

Gwelsom fod y drysau i bob deintyddfa a oedd yn cael ei defnyddio ar ddiwrnod yr arolygiad wedi'u cau gan y staff yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod panel gwydr tryloyw bach ar ddrws deintyddfa pedwar. Dywedodd rheolwr y practis wrthym y byddai drws pren cadarn newydd yn cael ei osod yn fuan. Fodd bynnag, rydym yn argymhell yn y cyfamser y dylai'r panel gael ei orchuddio neu ei ddisodli â deunydd nad yw'n dryloyw er mwyn sicrhau na all pobl eraill weld cleifion yn ystod triniaethau.

Gwelsom fod y 9 Egwyddor¹ a ddatblygwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn yr ardal aros a'u nodi mewn ffolder gwybodaeth i gleifion. Mae hyn yn un o ofynion y rheoliadau ac mae'n helpu i sicrhau bod cleifion yn

¹ Mae 9 egwyddor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn nodi'r safonau ymddygiad, perfformiad a moeseg sy'n berthnasol i weithwyr deintyddol proffesiynol yn y Deyrnas Unedig.

ymwybodol o'r safonau gofal y dylent eu cael gan weithwyr deintyddol proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau y caiff y panel gwydr tryloyw ar ddrws deintyddfa pedwar ei orchuddio neu y caiff deunydd nad yw'n dryloyw ei osod yn ei le.

Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael. Gwelsom fod rhestr prisiau ar gyfer triniaethau preifat a thaliadau ar gyfer deintyddiaeth y GIG wedi'i harddangos i'r cleifion yn yr ardal aros a'u nodi yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym fod unrhyw gost bob amser yn cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, dywedodd un claf wrthym:

"Weithiau mae'r gost yn cael ei hegluro i mi AR ÔL i'r driniaeth gael ei chwblhau"

Byddem yn atgoffa'r practis o bwysigrwydd rhoi gwybodaeth lawn i gleifion am eu gofal er mwyn sicrhau y gallant wneud penderfyniad hyddysg am y driniaeth a'r gofal y maent am eu cael.

Roedd copïau o daflen wybodaeth i gleifion y practis ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion ei darllen a mynd â hi adref gyda nhw. Cawsom olwg ar y daflen wybodaeth i gleifion a gwelsom fod angen ei diwygio er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017:

- mae angen ychwanegu enwau pob deintydd a gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol a gyflogir yn y practis
- mae angen ychwanegu'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chleifion sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n ymosodol tuag at staff.

Roedd y datganiad o ddiben² a ddarparwyd i ni ar ddiwrnod yr arolygiad yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau ond gwelsom fod angen tynnu enw un deintydd oddi ar y rhestr o ddeintyddion a gyflogir yn y practis gan nad yw'n gweithio yno mwyach.

Gwelsom fod enwau a chymwysterau perthnasol y tîm deintyddol wedi'u harddangos yn ardal aros y practis yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen diweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion er mwyn cynnwys enwau pob deintydd a gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol a gyflogir yn y practis ac amlinellu'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chleifion sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n ymosodol tuag at staff.

Mae angen diweddarau'r datganiad o ddiben er mwyn dileu manylion y deintydd nad yw wedi'i gyflogi yn y practis mwyach.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod rhywfaint o wybodaeth i'r cleifion ar gael i gleifion yn Gymraeg a Saesneg. Dywedwyd wrthym fod llawer o ieithoedd yn cael eu siarad ymysg y tîm deintyddol a oedd yn helpu i sicrhau bod anghenion ieithyddol y cleifion yn cael eu diwallu fel rhan naturiol o'u gofal.

Os byddai cleifion am sgwrsio mewn unrhyw iaith arall gallent drefnu hyn drwy wasanaeth cyfieithu. Fodd bynnag, ni allem weld unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos yn yr ardal aros i roi gwybod i'r cleifion am y mathau o wasanaethau sydd ar gael yn y practis mewn ieithoedd gwahanol. Trefnodd rheolwr y practis i'r wybodaeth hon gael ei harddangos yn yr ardal aros yn ystod yr arolygiad.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

² Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir.

Yn ystod yr arolygiad, cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion er mwyn cadarnhau eu bod yn cael eu cadw'n unol â chanllawiau proffesiynol. Gwelsom gynlluniau triniaeth ysgrifenedig ar gyfer y cleifion a oedd yn cynnwys nodiadau am yr opsiynau triniaeth a drafodwyd yn ystod apwyntiadau. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg am eu triniaeth.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys gymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth.

Gofal amserol

Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC yn teimlo ei bod yn eithaf hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedodd y staff wrthym fod y cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi bach mewn perthynas ag amseroedd eu hapwyntiadau wrth gyrraedd, neu cyn gynted â phosibl. Lle y bo'n bosibl, bydd y derbynyddion yn ceisio cysylltu â chlaf os bydd yr amseroedd aros yn hwy na 15 munud er mwyn cynnig aildrefnu ei apwyntiad.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw gleifion y mae angen triniaeth frys arnynt yn ystod oriau gwaith yn cael eu gweld ar yr un diwrnod lle bynnag y bo modd. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn rhoi gwybod i'r cleifion sut i gael gafael ar driniaeth frys y tu allan i oriau ac roedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn ffenestr y practis hefyd. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, yn ystod ein hadolygiad o sampl o gofnodion y cleifion, gwelsom nad oedd yr hanesion meddygol ar gyfer rhai o'r cleifion yn cael eu dogfennu'n briodol. Er enghraifft, gwelsom y canlynol:

- nid oedd y ffurflenni hanes meddygol papur a gwblhawyd gan y cleifion yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd perthnasol
- nid oedd y wybodaeth ar y ffurflenni hanes meddygol papur yn cael ei throsglwyddo'n gywir i'r cofnodion deintyddol electronig ar gyfer rhai o'r cleifion
- roedd diffyg tystiolaeth ddogfennol i ddangos bod gwiriadau hanes meddygol yn cael eu cynnal ar lafar gyda chleifion ym mhob apwyntiad dilynol.

Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â hyn o dan ein proses diffyg cydymffurfio uniongyrchol a cheir manylion amdanynt yn Atodiad B ynghyd â'r camau gweithredu a gymerwyd gan y practis er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Hawliau pobl

Roedd y practis wedi'i leoli oddi ar y brif stryd ac roedd y fynedfa i'r practis ar ochr yr adeilad. Roedd y dderbynfa, yr ardal aros a'r deintyddfeydd i gyd wedi'u lleoli ar y llawr daear ac felly'n hygyrch i bawb. Gwelsom fod y daflen wybodaeth i gleifion yn nodi bod cyfleusterau toiled y practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn; fodd bynnag, gwelsom fod toiledau'r cleifion yn fach ac nad oeddent yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn, felly rydym yn argymhell y dylid dileu'r cyfeiriad hwn o'r daflen wybodaeth i gleifion.

Nodwyd gennym fod polisi 'teg a hygyrch' a pholisi anabledd ar waith yn y practis, a oedd yn dangos ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael cynnig yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Gwelsom hefyd fod gan y practis bolisi ar waith a oedd yn nodi'r trefniadau manwl ar gyfer derbyn cleifion newydd, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis ddileu'r cyfeiriad at gyfleusterau toiled sy'n addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn o'r daflen wybodaeth i gleifion.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Gwelsom fod ffurflenni adborth papur ar gael yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion wneud sylwadau uniongyrchol am y gwasanaeth a ddarperir gan y practis. Hefyd, esboniodd rheolwr y practis fod y tîm rheoli canolog yn Bupa yn anfon holiaduron

at gleifion yn rheolaidd ar ôl eu hapwyntiad er mwyn casglu adborth. Caiff y canlyniadau eu monitro'n ganolog a'u hanfon i'r practis i'w hadolygu a'u trafod mewn cyfarfodydd tîm. Gwelsom fod canlyniadau holiaduron cleifion wedi'u harddangos yn yr ardal aros er mwyn i'r cleifion eu gweld a gwnaethom nodi hyn fel arfer da.

Roedd y wybodaeth am y weithdrefn y dylai'r cleifion ei dilyn i godi cwyn neu bryder wedi'i harddangos i'r cleifion yn yr ardal aros ac wedi'i chynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis roi mwy o gopiâu o'r weithdrefn yn y ffolder er mwyn i'r cleifion allu mynd â nhw gartref heb orfod gofyn i aelod o'r staff am gopi er mwyn helpu i warchod preifatrwydd ac urddas y cleifion a allai fod am godi cwyn neu bryder. Gwnaeth y staff hyn yn ystod yr arolygiad.

Gweslom fod y weithdrefn y dylai'r cleifion ei dilyn er mwyn codi cwyn neu bryder wedi'i harddangos o dan y pennawd 'cod ymarfer', term nad yw'n hawdd ei ddeall na'i adnabod fel proses gwyno. Deallwn fod hwn yn derm a ddefnyddir yn gyson ym mhob practis Bupa, fodd bynnag byddem yn cynghori y dylai'r iaith a ddefnyddir i gyfleu'r weithdrefn y dylai'r cleifion ei dilyn er mwyn codi cwyn neu bryder ddefnyddio termau mwy cyfarwydd.

Roedd y weithdrefn gwyno wedi'i hamlinellu i'r staff mewn polisi cwyno ac roedd yn cydymffurfio â chanllawiau Gweithio i Wella³ a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom fod system ar waith i gofnodi unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol gan gleifion. Dywedwyd wrthym y caiff unrhyw themâu cyffredin sy'n codi o gwynion eu trafod yn ystod cyfarfodydd tîm ac y rhoddir sylw iddynt yn unol â hynny.

³ Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon gan gleifion am ofal a thriniaeth yn GIG Cymru.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd gweithdrefnau addas ar waith ar gyfer glanhau, sterileiddio a storio offerynnau deintyddol.

Roedd y cyfleusterau clinigol mewn cyflwr da, yn cynnwys adnoddau digonol, ac roedd trefniadau priodol ar waith i ddefnyddio offer pelydr-X yn ddiogel.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i ddiogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gwastraff gofal iechyd yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel y tu allan i'r practis deintyddol er mwyn atal mynediad anawdurdodedig gan gleifion, staff ac aelodau o'r cyhoedd.

Mae angen gwneud gwelliannau ym maes cynllunio a darparu triniaethau er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel a phriodol sy'n diwallu eu hanghenion unigol.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod gan y practis bolisiâu, gweithdrefnau ac asesiadau risg amrywiol ar waith er mwyn sicrhau bod y safle yn ddiogel ac yn addas at y diben er mwyn helpu i ddiogelu llesiant y staff ac ymwelwyr â'r practis.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan ac roedd tystiolaeth bod gwaith adnewyddu wedi'i wneud yn ddiweddar. Gwelsom fod teils y nenfwd yn y ddeintyddfa yn dangos ôl traul a chadarnhaodd rheolwr y practis y byddai rhai newydd yn cael eu gosod yn eu lle yn fuan. Roedd pob rhan o'r practis yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg.

Gwelsom fod y practis wedi cymryd rhagofalon i ddiogelu'r staff ac ymwelwyr â'r practis pe bai tân. Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar ddiogelwch tân.

Roedd dyfeisiau diffodd tân ar gael ym mhob rhan o'r practis a oedd wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n briodol. Cawsom olwg ar asesiad risg tân a gynhaliwyd yn ddiweddar ac roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a oedd y dyfeisiau diffodd tân wedi'u gosod yn y lleoliadau mwyaf priodol. Argymhellwn y dylai'r practis gael cyngor gan arbenigwr diogelwch tân er mwyn darparu eglurder ar y sefyllfa.

Gwelsom fod arwyddion dim smygu wedi'u harddangos ym mhob rhan o'r practis er mwyn atgoffa'r staff a'r cleifion am y ddeddfwriaeth mangreoedd di-fwg⁴. Roedd poster lechyd a Diogelwch wedi'i arddangos hefyd er mwyn hysbysu'r staff am y ffordd orau o amddiffyn eu hiechyd a'u diogelwch personol yn y gweithle.

Roedd gan y practis gynllun parhad busnes fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau a oedd yn nodi'r cynlluniau wrth gefn a oedd ar waith i sicrhau y gallai'r practis barhau i weithredu'n ddiogel pe bai argyfwng neu drychineb naturiol. Roedd y cynllun yn cynnwys manylion cyswllt pob aelod o'r staff a chontractwyr busnes hanfodol mewn argyfwng, a nodwyd gennym fel arfer da.

Gallai'r staff newid yn nhoiledau'r cleifion a oedd â drws y gellid ei gloi er mwyn diogelu eu preifatrwydd a'u hurddas. Roedd cyfleusterau hefyd ar gael i'r staff storio eu heiddo personol, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis gael cyngor gan arbenigwr diogelwch tân er mwyn sicrhau bod y dyfeisiau diffodd tân sydd ar gael yn y practis wedi'u lleoli yn y lleoliadau mwyaf priodol er mwyn diogelu rhag y risg o dân.

Atal a rheoli heintiau

⁴ Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 – Cafodd deddfwriaeth i wahardd smygu mewn manau cyhoeddus caeedig ei chyflwyno yn 2007 er mwyn amddiffyn y cyhoedd rhag mwg ail-law.

Gwelsom dystiolaeth bod mesurau rheoli heintiau addas ar waith yn y practis mewn perthynas â glanhau a sterileiddio (dihalogi) offer deintyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05⁵. Roedd yr ystafell ddihalogi ddynodedig yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac yn cael ei ddefnyddio wrth weithio yn yr ardaloedd dihalogi er mwyn helpu i leihau'r posibilrwydd y byddent yn dod i gysylltiad â heintiau.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodyfr a oedd yn cadarnhau bod y staff wedi bod yn cynnal ac yn cofnodi gwiriadau dyddiol er mwyn sicrhau bod y cyfarpar sterileiddio yn gweithredu'n briodol ac yn bodloni'r gofynion dilysu. Roedd gan y practis amrywiaeth eang o bolisiau ar waith a oedd yn nodi'r mesurau rheoli heintiau gwahanol a oedd ar waith yn y practis, megis y trefniadau ar gyfer gweithdrefnau hylendid dwylo addas.

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y practis deintyddol yn lân.

Roedd contract ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff (clinigol) peryglus yn ddiogel. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad oedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel y tu allan i'r practis. Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â hyn o dan ein proses diffyg cydymffurfio uniongyrchol a cheir manylion amdanynt yn Atodiad B.

Roedd y practis yn defnyddio dyfeisiau 'miniog mwy diogel' er mwyn helpu i atal neu leihau'r risg o anafiadau offer miniog damweiniol. Gwelsom dystiolaeth bod gan holl staff clinigol y practis statws imiwneiddio Hepatitis B derbyniol a oedd yn golygu bod mesurau priodol yn cael eu cymryd er mwyn helpu i ddiogelu'r cleifion a'r staff rhag y feirws hwn a gludir yn y gwaed.

Rheoli meddyginiaethau

⁵ Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddihalogi mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefnau a threfniadau effeithiol ar waith mewn perthynas ag ymdrin â meddyginiaethau, eu cadw'n ddiogel a'u gwaredu, a oedd wedi'u nodi mewn polisi rheoli meddyginiaethau

Roedd cyffuriau brys a chyfarpar dadebru brys ar gael yn y practis ac roeddent yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)⁶. Roedd pob eitem yn cael ei storio'n briodol ac yn hygyrch i'w defnyddio mewn argyfwng, er enghraifft, pe bai claf yn llewygu. Roedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u dogfennu mewn perthynas â'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ddiogel i'w defnyddio, a nodwyd gennym fel arfer da.

Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol a oedd yn cynnwys y canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar gyfer dadebru er mwyn helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleifion. Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddadebru cardio-anadlol brys (CPR).

Roedd dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf er mwyn sicrhau y gellir trin unrhyw un yn y practis y mae angen cymorth cyntaf arno yn briodol.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r angen i roi gwybod i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) am unrhyw adweithiau niweidiol i feddyginiaethau neu ddyfeisiau meddygol a brofwyd gan gleifion drwy'r Cynllun Cerdyn Melyn⁷, er mwyn helpu MHRA i fonitro a yw cynhyrchion gofal iechyd yn cyrraedd lefelau diogelwch derbyniol i gleifion a'r rheini sy'n eu defnyddio.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ac oedolion diamddiffyn a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu unigolion. Roedd y polisi'n cynnwys manylion cyswllt er mwyn i'r staff roi gwybod i'r asiantaethau diogelu lleol perthnasol am unrhyw bryderon. Yn ystod yr arolygiad cawsom sgwrs ag aelodau o'r staff ac roeddent

⁶ <https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-care-equipment-and-drug-lists/>

⁷ <https://yellowcard.mhra.gov.uk/the-yellow-card-scheme/>

yn gallu disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon yn ymwneud â diogelu.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi ymgymryd â hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Nid oedd gan y practis gopi o Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008, sy'n nodi'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer diogelu plant a hyrwyddo eu lles ledled Cymru. Argymhellwn y dylai'r practis gael copi o'r gweithdrefnau a sicrhau bod yr aelodau o'r staff yn ymgyswrtu â'r cynnwys er mwyn deall y dull gweithredu cenedlaethol mewn perthynas â diogelu plant.

Dywedodd y staff wrthym am y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gofyn am ddau eirfa gan gyflogwyr blaenorol a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)⁸ er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn addas i weithio mewn practis deintyddol yn unol â'r rheoliadau.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom archwilio'r cyfleusterau clinigol yn y practis a gwelsom fod y cyfarpar deintyddol ym mhob deintyddfa wedi'i gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da. Roedd pob deintyddfa yn cynnwys digon o gyfarpar, offerynnau a deunyddiau.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel a chawsom sicrwydd fod y practis yn gweithredu'n unol â'r canllawiau a bennwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) (IR(ME)R) 2017. Dyma'r rhesymau dros hyn:

- roedd y tîm deintyddol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd Ïoneiddio
- roedd y cyfarpar pelydr-X wedi cael ei wasanaethu'n rheolaidd ac roedd ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ar gael a oedd yn cynnwys yr

⁸Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

holl wybodaeth berthnasol mewn perthynas â defnyddio a chynnal a chadw'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel

- roedd polisi ymbelydredd cynhwysfawr ar waith ac roedd y rheolau lleol⁹ wedi'u harddangos wrth ymyl y cyfarpar pelydr-X er mwyn nodi'r gweithdrefnau ymarferol i sicrhau y caiff amlygiad staff i ymbelydredd ei gyfyngu.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Nododd ein hadolygiad o sampl o gofnodion y cleifion a gedwir yn y practis rai pryderon mewn perthynas â darparu gofal a thriniaeth briodol i'r cleifion, yn arbennig y canlynol:

- roedd canlyniadau rhai Archwiliadau Periodontol Sylfaenol¹⁰ (BPE) a gynhaliwyd ar gleifion yn anghyson â thystiolaeth radiograffeg gysylltiedig ac felly nid oeddent yn dogfennu difrifoldeb statws periodontol gwirioneddol rhai cleifion yn gywir
- mewn rhai cofnodion roedd diffyg tystiolaeth ddogfennol i ddangos bod cleifion â sgoriau BPE o 3 neu 4 wedi cael siart boced chwe phwynt neu fod cynllun triniaeth clir ar waith i wella neu sefydlogi'r cyflwr
- roedd rhai cleifion wedi cael triniaeth ddeintyddol adferol (e.e. gweithdrefnau corun deintyddol a phont ddeintyddol) ond nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i dogfennu i ddangos bod radiograffau periapical ar gyfer y geg wedi cael eu cwblhau er mwyn helpu'r gwaith cynllunio cyn llawdriniaeth.

⁹Cyfres o reolau a phrotocolau ar gyfer y practis yw rheolau lleol, sy'n helpu staff i ddilyn y rheoliadau ym maes deintyddiaeth.

¹⁰ https://www.bsperio.org.uk/publications/downloads/107_084422_bpe-guidelines-2011.pdf

Roedd hyn yn golygu ar ddiwrnod yr arolygiad na ellid rhoi sicrwydd i ni bod y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a oedd yn cael eu darparu i'r cleifion yn y practis yn ddiogel ac yn glinigol effeithiol. Ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â hyn o dan ein proses diffyg cydymffurfio uniongyrchol a cheir manylion amdanynt yn Atodiad B.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliadau clinigol er mwyn dadansoddi ansawdd y gofal deintyddol a'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion a nodi meysydd i'w gwella. Cynhaliwyd archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau dihalogi WHTM 01-05 a chynhaliwyd archwiliad i sicrhau bod trefniadau rhagnodi gwrthfotigau'r practis yn dilyn canllawiau arfer gorau o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Roedd y practis hefyd wedi cynnal archwiliadau o ansawdd delweddau pelydrau-X ac ar ansawdd cofnodion y cleifion. Fodd bynnag, yn ystod ein hadolygiad o gofnodion y cleifion gwelsom fod rhai radiograffau wedi'u graddio'n anghywir a bod rhai gwallau yn y gwaith o gynllunio triniaethau a chofnodi hanesion meddygol y cleifion. Rydym felly'n argymhell y dylai'r staff sy'n cynnal yr archwiliadau hyn gael mwy o hyfforddiant ac arweiniad ar sut i gynnal archwiliadau o'r fath yn effeithiol a sicrhau eu bod yn gallu adnabod pan fydd safonau'n disgyn islaw'r safonau disgwylidig.

Esboniodd y staff fod y practis yn defnyddio adnodd datblygu practisau a ddatblygwyd gan Bupa sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arfer gorau a gofynion deddfwriaethol a gwella'r ffordd y mae'n gweithio. Hefyd, mae'r tîm rheoli canolog yn Bupa yn cynnal matrices sgiliau ar gyfer pob aelod o'r staff er mwyn monitro sgiliau a chymwyseddau ac anogir y staff i ddysgu sgiliau newydd sydd y tu hwnt i rôl eu swydd, lle y bo'n briodol.

Cadarnhaodd y practis nad yw'n gwneud unrhyw waith ymchwil.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod unrhyw aelod o'r staff sy'n cynnal archwiliadau clinigol yn cael mwy o hyfforddiant ac arweiniad ar sut i gynnal archwiliadau o'r fath yn effeithiol a sicrhau ei fod yn gallu adnabod pan fydd safonau'n disgyn islaw'r safonau disgwylidig.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis nifer o bolisiâu ar waith a oedd yn nodi'r gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu gwybodaeth cleifion a rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd cofnodion y cleifion yn electronig a dywedwyd wrthym fod copiâu o'r data yn cael eu creu a'u storio mewn cronfa ddata o bell (storfa gwmwl) yn rheolaidd er mwyn sicrhau y gellid adfer y data gwreiddiol pe bai unrhyw beth yn digwydd i'r practis neu'r system ac na allai'r staff gael gafael arnynt mwyach.

Cadw cofnodion

Drwy gydol yr adroddiad rydym wedi nodi ein pryderon nad oedd rhai o gofnodion y cleifion a gedwir yn y practis yn cynnwys cofnod cywir o hanesion meddygol, asesiadau na chynlluniau triniaeth y cleifion. Mae Atodiad B yn nodi'r camau gweithredu brys y mae'r practis yn eu cymryd mewn ymateb i'n pryderon, a disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg o ran hyn erbyn yr arolygiad nesaf.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth bod gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith, gan gynnwys proses flynyddol ar gyfer arfarnu staff a chyfarfodydd staff rheolaidd.

Roedd y staff yn cydweithio'n dda ac roeddent wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau addas ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion a gwelsom eu bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol yn unol â'r rheoliadau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae practis Canton yn eiddo i Bupa Dental Care (Smiles Oasis Dental Care gynt) ac roedd yn glir bod y staff yn y practis yn gallu cael cymorth ac arweiniad gan y tîm rheoli canolog yn Bupa yn ôl yr angen. Gwelsom fod y staff yn cydweithio'n dda â'i gilydd fel tîm a dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol.

Siaradodd y staff â ni am Speak Up¹¹, sef sianel i gyflogeion Bupa godi unrhyw broblemau neu bryderon a all fod ganddynt am y gofal a ddarperir i gleifion yn y practis yn gyfrinachol. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith hefyd pe bai'r staff am godi pryder yn uniongyrchol gyda'r deintydd(ion), rheolwr y practis, neu gyda chorff amgen priodol pe bai angen.

¹¹ <https://secure.ethicspoint.eu/domain/media/en/gui/102918/index.html>

Roedd amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Gwelsom fod y rhain wedi cael eu hadolygu'n flynyddol yn unol â'r rheoliadau a bod yn rhaid i'r staff lofnodi pob polisi er mwyn dangos eu bod wedi ei ddarllen a'i ddeall.

Cadarnhaodd rheolwr y practis, fel y rheolwr cofrestredig enwebedig¹², ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o dan y rheoliadau o ran unrhyw hysbysiadau y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC, er enghraifft os bydd claf yn cael anaf difrifol.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru i ymarfer â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yswiriant indemniad priodol ar waith ar eu cyfer.

Gwelsom fod tystysgrifau wedi'u harddangos a oedd yn dangos bod gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus er mwyn amddiffyn y practis rhag hawliadau am iawndal a chostau cyfreithiol cysylltiedig a bod y practis wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd trefniadau llywodraethu addas ar waith yn y practis. Roedd gan yr aelodau o'r staff gontractau cyflogaeth a disgrifiadau swydd a oedd yn nodi eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roedd y rhain yn cael eu cadw yn ffeiliau'r staff.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu hannog i ymgymryd â chyfleoedd hyfforddi mor aml â phosibl, a gwelsom dystysgrifau ar gyfer y staff a oedd yn dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).

Cynhelir cyfarfodydd tîm ffurfiol bob mis lle mae'r staff yn gallu trafod pynciau megis meysydd i'w gwella, canlyniadau adborth gan gleifion a diweddariadau diogelu. Gwelsom fod cofnodion y cyfarfod tîm diwethaf a gynhaliwyd wedi'u

¹² Ystyr rheolwr cofrestredig yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

harddangos yn ystafell y staff fel y gallai unrhyw aelod o'r staff a oedd yn absennol ddarllen yr hyn a drafodwyd.

Gwelsom gofnodion a oedd yn cadarnhau bod arfarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, gan gynnig cyfleoedd i'r staff glywed adborth am eu perfformiad ac adolygu unrhyw gyfleoedd DPP.

Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol, ar adeg cofrestru, i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar Dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a gyhoeddwyd o fewn y tair blynedd blaenorol. Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion y staff clinigol ac anghlinigol a gwelsom fod archwiliadau clirio priodol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal er mwyn helpu i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd polisi recriwtio yn nodi'r weithdrefn i'w dilyn wrth recriwtio aelodau newydd o staff a oedd yn cynnwys y gwiriadau cyn-cyflogi y byddai'r practis yn eu cynnal er mwyn sicrhau bod unrhyw aelod newydd o staff yn meddu ar y cymwysterau addas ac wedi'i ddiogelu'n addas i weithio gyda chleifion. Roedd polisi sefydlu hefyd ar waith er mwyn helpu staff newydd i feithrin dealltwriaeth effeithiol o'u rôl newydd a oedd yn cynnwys cyfnod cysgodi a monitro gan uwch-aelodau o'r staff.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#), [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2000](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Bupa Dental Care Canton

Dyddiad arolygu: 02 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr adolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod gwastraff gofal iechyd yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel y tu allan i'r practis deintyddol yn unol â chanllawiau arfer gorau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliadau 13(5a), 13(5b)	Cofnodlyfr wedi cael ei roi ar waith ac yn cael ei lofnodi gan ddau aelod o'r tîm bob dydd er mwyn cadarnhau bod y gwastraff wedi'i storio'n ddiogel. Protocol wedi cael ei roi ar waith a'i lofnodi gan bob aelod o'r tîm. Biniau wedi'u clymu wrth wal.	Natalie Stansfield PM	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r ffurflenni hanes meddygol a gwblheir gan y cleifion gael eu cydlofnodi gan y deintydd perthnasol i ddangos bod y deintydd	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Cyfarfod 10/9/19 i drafod canfyddiadau – pob aelod o'r tîm yn bresennol	Natalie Stansfield – PM, Pat Conway – Pennaeth	Cwblhawyd

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
wedi ystyried hanes meddygol y claf wrth gynllunio gofal a thriniaeth ddeintyddol.	Rheoliad 20(1a)		Gwasanaethau Clinigol Bupa, Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro Bupa	
		Clinigwyr i gwblhau Hyfforddiant Gloywi ar Gadw Cofnodion a darparu'r tystysgrifau i'w hanfon ymlaen	Clinigwyr	24 Medi 2019
		Archwiliadau misol i'w cynnal er mwyn monitro gwelliannau	Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro / Natalie Stansfield PM	Bob mis tan yn fodlon bod y problemau wedi'u datrys yn llawn
Mae'n rhaid cynnal archwiliad er mwyn rhoi sicrwydd bod gwybodaeth am hanes meddygol	Rheoliadau Deintyddiaeth	Cyfarfod 10/9/19 i drafod canfyddiadau – pob aelod o'r tîm yn bresennol	Natalie Stansfield – PM,	Cwblhawyd

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
yn cael ei throsglwyddo'n gywir o'r ffurflenni papur i gofnodion deintyddol y cleifion.	Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20(1a)		Pat Conway – Pennaeth Gwasanaethau Clinigol Bupa, Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro Bupa	
		Archwiliadau misol i'w cynnal er mwyn monitro gwelliannau	Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro / Natalie Stansfield PM	Bob mis tan yn fodlon bod y problemau wedi'u datrys yn llawn
		Clinigwyr i gwblhau Hyfforddiant Gloywi ar Gadw Cofnodion a darparu'r tystysgrifau i'w hanfon ymlaen	Clinigwyr	24 Medi 2019

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen i'r gwiriadau hanes meddygol a gynhelir ar lafar gyda chleifion gael eu cofnodi ar eu cofnod deintyddol electronig ym mhob apwyntiad dilynol.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20(1a)	Cyfarfod 10/9/19 i drafod canfyddiadau – pob aelod o'r tîm yn bresennol	Natalie Stansfield – PM, Pat Conway – Pennaeth Gwasanaethau Clinigol Bupa, Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro Bupa	Cwblhawyd
		Archwiliadau misol i'w cynnal er mwyn monitro gwelliannau	Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro / Natalie Stansfield PM	Bob mis tan yn fodlon bod y problemau wedi'u datrys yn llawn
		Clinigwyr i gwblhau Hyfforddiant Gloywi ar Gadw Cofnodion a	Clinigwyr	24 Medi 2019

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		darparu'r tystysgrifau i'w hanfon ymlaen		
Mae'n rhaid i'r practis roi sicrwydd i AGIC bod yr Archwiliadau Periodontol Sylfaenol (BPE) a gynhelir ar gleifion yn adlewyrchu gwir statws periodontol y claf.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20(1a)	Cyfarfod 10/9/19 i drafod canfyddiadau – pob aelod o'r tîm yn bresennol	Natalie Stansfield – PM, Pat Conway – Pennaeth Gwasanaethau Clinigol Bupa, Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro Bupa	Cwblhawyd
		Archwiliadau misol i'w cynnal er mwyn monitro gwelliannau	Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro / Natalie Stansfield PM	Bob mis tan yn fodlon bod y problemau wedi'u datrys yn llawn

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Clinigwyr i gwblhau Hyfforddiant Gloywi ar Ddeintgig a darparu'r tystysgrifau i'w hanfon ymlaen	Clinigwyr	24 Medi 2019
Mae'n rhaid i'r practis roi sicrwydd y caiff Archwiliadau Periodontol Llawn eu cynnal ar gyfer cleifion â sgoriau BPE o 3 a 4.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20(1a)	Cyfarfod 10/9/19 i drafod canfyddiadau – pob aelod o'r tîm yn bresennol	Natalie Stansfield – PM, Pat Conway – Pennaeth Gwasanaethau Clinigol Bupa, Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro Bupa	Cwblhawyd
		Archwiliadau misol i'w cynnal er mwyn monitro gwelliannau	Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro / Natalie Stansfield PM	Bob mis tan yn fodlon bod y problemau wedi'u datrys yn llawn

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Clinigwyr i gwblhau Hyfforddiant Gloywi ar Ddeintgig a darparu'r tystysgrifau i'w hanfon ymlaen	Clinigwyr	24 Medi 2019
Mae'n rhaid i'r practis roi sicrwydd bod cynlluniau triniaeth clir y gellir eu cyfiawnhau ar waith ac wedi'u dogfennu ar gofnodion deintyddol electronig y cleifion, er mwyn gwella a sefydlogi'r cyflwr ar gyfer cleifion â sgoriau BPE o 3 neu 4.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20(1a)	Cyfarfod 10/9/19 i drafod canfyddiadau – pob aelod o'r tîm yn bresennol	Natalie Stansfield – PM, Pat Conway – Pennaeth Gwasanaethau Clinigol Bupa, Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro Bupa	Cwblhawyd
		Archwiliadau misol i'w cynnal er mwyn monitro gwelliannau	Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro / Natalie Stansfield PM	Bob mis tan yn fodlon bod y problemau wedi'u datrys yn llawn

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Clinigwyr i gwblhau Hyfforddiant Gloywi ar Ddeintgig a darparu'r tystysgrifau i'w hanfon ymlaen	Clinigwyr	24 Medi 2019
Mae'n rhaid i'r practis roi sicrwydd bod radiograffau periapical ar gyfer y geg yn cael eu cwblhau er mwyn helpu'r gwaith cynllunio cyn llawdriniaeth ar gyfer cleifion y mae angen triniaeth ddeintyddol adferol arnynt.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 20(1a)	Cyfarfod 10/9/19 i drafod canfyddiadau – pob aelod o'r tîm yn bresennol	Natalie Stansfield – PM, Pat Conway – Pennaeth Gwasanaethau Clinigol Bupa, Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro Bupa	Cwblhawyd
		Archwiliadau misol i'w cynnal er mwyn monitro gwelliannau	Toni-Marie Burrows – Arweinydd Goruchwylio a Monitro / Natalie Stansfield PM	Bob mis tan yn fodlon bod y problemau wedi'u datrys yn llawn

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd	Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Clinigwyr i gwblhau Hyfforddiant Gloywi ar Radiograff Ddiagnostig a darparu'r tystysgrifau i'w hanfon ymlaen	Clinigwyr	24 Medi 2019

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Natalie Stansfield

Swydd: Rheolwr Cofrestredig / Rheolwr y Practis

Dyddiad: 10 Medi 2019

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bupa Dental Care Canton

Dyddiad arolygu: 02 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen i'r practis sicrhau y caiff y panel gwydr tryloyw ar ddrws deintyddfa	Safonau Iechyd a Gofal 2015	Ffenestr wydr fach yn nrws deintyddfa 4 wedi'i gorchuddio	Natalie Stansfield	O fewn y mis nesaf

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
pedwar ei orchuddio neu y caiff deunydd nad yw'n dryloyw ei osod yn ei le.	Safon 2.1 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 15(1)	dros dro â phlastig gwyn. Yn aros am ddyddiad i gael ei gadarnhau gan gontractwr i osod drws newydd.	Rheolwr y Practis	Erbyn 21/11/19
Mae angen diweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion er mwyn cynnwys enwau pob deintydd a gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol a gyflogir yn y practis ac amlinellu'r trefniadau ar gyfer ymdrin â chleifion sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n ymosodol tuag at staff.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 6(1)	Caiff Taflenni Gwybodaeth i Gleifion eu llunio'n ganolog drwy'r Brif Swyddfa, anfonir cais i'r Tîm Marchnata wneud diwygiadau i dempled y daflen er mwyn cynnwys manylion y clinigydd/gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol (DCP), cynnwys datganiad mewn perthynas â pholisi dim goddefgarwch, dileu'r datganiad mewn perthynas â chyfleusterau toiled i'r anabl.	Natalie Stansfield Rheolwr y Practis Tîm Marchnata y Brif Swyddfa	O fewn deufis – cais wedi'i anfon i'r Tîm Marchnata drwy e-bost
Mae angen diweddarau'r datganiad o ddiben er mwyn dileu manylion y deintydd nad yw wedi'i gyflogi yn y practis mwyach.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 5(1)	Datganiad o ddiben wedi'i olygu i ddileu manylion y clinigydd sydd wedi gadael y practis	Natalie Stansfield Rheolwr y Practis	Cwblhawyd ar ddiwrnod yr arolygiad

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r practis ddileu'r cyfeiriad at gyfleusterau toiled sy'n addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn o'r daflen wybodaeth i gleifion.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 6(1)	Caiff Taflenni Gwybodaeth i Gleifion eu llunio'n ganolog drwy'r Brif Swyddfa, anfonir cais i'r Tîm Marchnata wneud diwygiadau i dempled y daflen er mwyn cynnwys manylion y clinigydd/gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol (DCP), cynnwys datganiad mewn perthynas â pholisi dim goddefgarwch, dileu'r datganiad mewn perthynas â chyfleusterau toiled i'r anabl.	Natalie Stansfield Rheolwr y Practis Tîm Marchnata y Brif Swyddfa	O fewn deufis – cais wedi'i anfon i'r Tîm Marchnata drwy e-bost
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r practis gael cyngor gan arbenigwr diogelwch tân er mwyn sicrhau bod y dyfeisiau diffodd tân sydd ar gael yn y practis wedi'u lleoli yn y lleoliadau mwyaf priodol er mwyn diogelu rhag y risg o dân.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 Rheoliad 22(4(a))	Aseiad risg tân annibynnol wedi'i drefnu er mwyn egluro a chadarnhau lleoliadau priodol a gwelliannau os oes angen	Natalie Stansfield Rheolwr y Practis	Trefnwyd ar gyfer 2/12/19
Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod unrhyw aelod o'r staff sy'n cynnal	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Archwiliadau misol yn cael eu cwblhau er mwyn sicrhau	Natalie Stansfield	Parhaus – archwiliadau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
archwiliadau clinigol yn cael mwy o hyfforddiant ac arweiniad ar sut i gynnal archwiliadau o'r fath yn briodol er mwyn sicrhau y nodir gwelliannau effeithiol.	Rheoliad 16(1(a))	gwelliannau cyson ym mhob agwedd ar gadw cofnodion a diagnosis. Archwiliadau'n cael eu monitro gan dimau clinigol a chydymffurfiaeth yn y Brif Swyddfa	Rheolwr y Practis Adrannau Clinigol Chydymffurfiaeth y Brif Swyddfa	misol i ddangos gwelliannau

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ni nodwyd unrhyw welliannau ar gyfer yr adran hon.

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Natalie Stansfield

Teitl swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 21 Hydref 2019